PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU EXAMINATIONS

ARHOLIADAU GRADD, SEMESTER 1

IONAWR 2010

ADDYSG AC ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD

PAPUR: ED10620 EARLY YEARS PROVISION: PRINCIPLES AND PRACTICE

AMSER: DWY AWR

ATEBWCH **DDAU** GWESTIWN, **UN O RAN A AC UN O RAN B**

RHAN A

1. Trafodwch yn feirniadol unrhyw ddau ddamcaniaethwr sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth ac arfer ym maes y blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd.

2. Mae'r ffaith bod Lloegr yn mynnu bod plant yn cychwyn ar eu haddysg ffurfiol mor ifanc â phosib, a hynny yn groes i'r dystiolaeth a'r arfer yn rhyngwladol, yn wrthgynhyrchiol o safbwynt addysg. Dylid ailenwi'r Cyfnod Sylfaen i'r Blynyddoedd Cynnar a'i estyn hyd at chwech oed, ac fe ddylid cryfhau y ddarpariaeth i'r blynyddoedd cynnar o ran ansawdd ac o ran staff fel y bydd plant yn cael eu paratoi'n briodol – yn gymdeithasol, ieithyddol ac o ran profiad – at ddysgu'n ffurfiol. (Cambridge Primary Review Briefing, 2009). Dadansoddwch y datganiad hwnnw yn feirniadol yng ngoleuni'r gwahaniaeth rhwng polisïau i'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru a Lloegr.

3. Gan fod Cyfnod Sylfaen i'r Blynyddoedd Cynnar wedi'i sefydlu yn Lloegr, y mae dull 'cyd-gysylltiedig' o ddarpariaeth i'r blynyddoedd cynnar yn bodoli erbyn hyn; ni all hynny ond arwain at well gwasanaethau ac addysg i bawb. I ba raddau y gallwch gytuno â'r datganiad hwnnw?

4. Rhowch fraslun o'r polisïau cyfredol ar chwarae a dysgu gweithredol mewn lleoliadau i'r blynyddoedd cynnar, a thrafodwch sut y maent yn berthnasol i'r galwadau am broffiliau asesu a chanlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant.

RHAN B

5. Trafodwch sut y mae dogfen *Every Child Matters* a Deddf Plant 2004 wedi effeithio ar ddatblygu partneriaethau o fewn lleoliadau i'r blynyddoedd cynnar.

6. Beth yw prif elfennau darpariaeth o ansawdd uchel i'r blynyddoedd cynnar?

7. Sut y gallai polisi effeithiol ar gynhwysiant wella'r ddarpariaeth mewn lleoliad i'r blynyddoedd cynnar?

8. Mae'r papur gwyn '*New Opportunities: Fair chances for the future*' (Ionawr 2009) yn dweud bod ansawdd darpariaeth i'r blynyddoedd cynnar yn 'hanfodol bwysig' a bod gwella sgiliau'r gweithlu yn allweddol i wella ansawdd. Wrth drafod y cyfleoedd sydd ar gael o ran datblygu staff, a'r hyn sy'n rhwystro datblygu staff ar hyn o bryd, dadansoddwch i ba raddau y mae'r datganiad uchod yn briodol.